Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid
ddydd Mercher, 12 Hydref 2022

Yn bresennol: Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Marc Davies, Ifan Davies (ymunodd â'r cyfarfod am 10:45am), Meirion Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Chris James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Siân Maehrlein, Mark Strong a Carl Worrall

Hefyd yn Bresennol: CY ynghorwyr Eryl Evans, Wyn Evans, Clive Davies, Euros Davies, Keith Henson ac Ann Bowen Morgan

Swyddogion yn bresennol: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold - Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, Gogledd, Mr Sam Pugh, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, De, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, Mrs Carol Thomas, a Ms Llinos Williams, Cyfieithwyr

(10:00am-11:40am)

1 **Personol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod a manteisiodd ar y cyfle i ddymuno'n dda i Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Cynllunio, yn dilyn ei gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Yn ogystal, estynnodd yr aelodau groeso i Gynghorydd Mark Strong, a oedd yn bresennol dros zoom, gan ddymuno'n dda iddo.

Manteisiodd y Cynghorydd Rhodri Evans ar y cyfle i ddiolch i Swyddogion a fu'n ymwneud â datblygiad anghyfreithlon yn Nhrychrug, Talsarn yn ddiweddar, am ddelio gyda'r ymchwiliad hwn a'i ddatrys yn gyflym ac mewn ffordd broffesiynol. Ategwyd y sylwadau uchod gan Gynghorydd Marc Davies, ac roedd yn dymuno nodi yn y cofnodion bod Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio gweithdrefnau gorfodi yn ôl yr angen, gan gymryd y camau mwyaf priodol. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a fu'n ymwneud â hyn hefyd.

2 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ifan Davies na fyddai modd iddo fod yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, ac ymunodd â'r cyfarfod am 10:45am.

3 **Datgan Buddiannau Personol a/neu Fuddiannau sy'n Rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd unrhyw Fuddiannau Personol a/neu Fuddiannau sy'n Rhagfarnu.

4 **Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Medi**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022 yn gywir.

Materion yn codi

Dim

5 **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng Nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio am y ceisiadau cynllunio canlynol, a ystyriwyd yn ystod cyfarfod blaenorol ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach:

Wrth ystyried y cais isod, cyflwynwyd gwybodaeth esempt yn unol â'r diffiniad ym Mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Cytunwyd y byddai'r cyhoedd a'r wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth i'r mater gael ei ystyried, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf. Ar ôl ystyried y wybodaeth esempt hon, dychwelodd y pwyllgor i drefniant cyfarfod cyhoeddus. Gwaharddwyd y Cyhoedd a'r Wasg am 10:30am ac fe'u gwahoddwyd yn ôl i mewn am 10:45am.

A210091 Cais cynllunio ôl-weithredol am sied peiriannau amaethyddol a storio a gwelliannau i'r mynediad presennol i gerbydau, Tir gyferbyn â Than Yr Allt, Coxhead, Tregaron.

GWRTHOD y cais am y rhesymau canlynol:

1. Nid yw'r cais yn dangos yr angen am y datblygiad arfaethedig yn y lleoliad hwn. Felly, ni cheir cyfiawnhad digonol dros ganiatáu datblygiad mewn cefn gwlad agored, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Felly, mae'r cynnig yn mynd yn groes i Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010).
2. Oherwydd ei leoliad ar drac yr hen reilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin, nid yw'r cynnig yn llwyddo i ddiogelu seilwaith trafnidiaeth blaenorol, y mae ganddo y potensial i ddarparu teithio cynaliadwy yn groes i bolisi DM04: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Ceredigion a fabwysiadwyd.
3. Lleolir safle y cais mewn lleoliad amlwg yn y tirlun i ffwrdd o unrhyw ffurfiau adeiledig cyfreithlon. Felly, bernir bod lleoliad a maint y datblygiad yn niweidiol i gymeriad ac ymddangosiad y tirlun a'r ardal. O ganlyniad, mae'r datblygiad arfaethedig yn mynd yn groes i Bolisïau DM06 a DM17 y Cynllun Datblygu Lleol.

---

6 **Ceisiadau Datblygu, Hysbysebu, Statudol a'r Awdurdod Lleol**
Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch Ceisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-

Anerchodd Mr Oliver Cooper (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r Weithdrefn weithredol i Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A200789 Datblygiad preswyl sy'n cynnwys 15 annedd a'r holl faterion neilltuedig ac eithrio mynediad a chynllun, Tir yn Lôn Gwastad, Borth.

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau a chwblhau Cytundeb adran 106.

Anerchodd Mr Ifan Evans (Ymgeisydd) a Mrs Gwennan Jenkins (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r Weithdrefn weithredol i Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A220202 Disodli annedd gadawedig, Tir ym Mhantyffynnon Isaf, Ysbyty Ystwyth

CYFEIRIO'R cais i Banel Archwilio Safle yn unol â phwynt 2, a 5 y meini prawf a fabwysiadwyd gan y Cyngor; a;
GOHIRIO'R penderfyniad am y cais yn unol â Dewis 3 Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu ynghylch 'cyfnod callio'.

A220259 Codi canopi dros iard gaeedig, Ysgol Uwchradd Aberteifi, Park Place, Heol Gwbert, Aberteifi, SA43 1AD

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau.

7 **Ceisiadau Cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8 **Apeliadau Cynllunio**

CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

Roedd yr aelodau yn dymuno nodi yn y cofnodion bod ganddynt bryder am y ffaith eu bod wedi cael anhawster clywed siaradwyr ar zoom unwaith eto yn y Siambr.

Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 09 Tachwedd 2022

Cadeirydd:-_____

Dyddiad:_____